

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

Chwefror 2021

1. Cefndir a dull gweithredu

Bob blwyddyn rydym yn ystyried sut mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc Cymru. Rydym yn canolbwyntio ar sut mae Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu cyfrifoldebau deddfwriaethol i roi 'sylw dyledus' i hawliau plant. Rydym yn craffu ar sut mae adnoddau wedi cael eu blaenoriaethu, a yw gwasanaethau'n fforddiadwy ac yn sicrhau gwerth am arian, ac a ydyn nhw'n gwneud hyn mewn ffordd glir a thryloyw. Mae'r gwaith hwn yn cael ei lywio gan y gweithgarwch craffu ariannol rydyn ni'n ei brif ffrydio i'n holl waith, trwy gydol y flwyddyn.

1. Mae materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn cyffwrdd ar sawl un o bortffolios Llywodraeth Cymru a'r cyllidebau cysylltiedig. Wrth ystyried a yw Llywodraeth Cymru wedi dyrannu'r adnoddau sydd ar gael iddi i'r graddau mwyaf posibl,¹ rydym wedi ceisio ystyried a yw plant a phobl ifanc yn cael eu cyfran deg o gyllid. Rydym hefyd wedi edrych am dystiolaeth ynghylch pa ganlyniadau sy'n cael eu cyflawni pan fydd arian yn cael ei wario, ac i ba raddau y mae gwariant ar blant yn sicrhau gwerth am arian.

¹ Erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn



2. Yn ein dull o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2021-22 rydym wedi ceisio gweithio mewn ffordd gydlynol gyda Phwyllgorau eraill y Senedd i sicrhau bod gwaith craffu'r Senedd mor effeithiol â phosibl.

- Rydym wedi defnyddio tystiolaeth gan randdeiliaid i'r **Pwyllgor Cyllid** i lywio ein cwestiynau i'r Gweinidogion.
- Rydym wedi gweithio gyda'r **Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon** i sicrhau y rhennir gwybodaeth am ddyraniadau iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Mae hyn yn arbennig o wir o ran iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc ynghyd ag iechyd meddwl amenedigol.
- Cafodd rhywfaint o'r dystiolaeth a ddarparwyd i'n Pwyllgor am linellau cyllideb y Gweinidog Addysg ei gasglu ar ran **Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**, yn enwedig mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi, ac mewn perthynas â dysgu gydol oes.
- O ystyried rôl allweddol Llywodraeth Leol wrth gyflawni nifer o'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc, megis addysg a gofal cymdeithasol, mae materion sy'n dod o fewn cylch gwaith y **Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau** hefyd o ddiddordeb cyffredin.

2. Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

3. Cyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru yw ychydig mwy na £22 biliwn. Mae'r ffeithlun hwn yn dangos **dyraniadau refeniw** i adrannau Llywodraeth Cymru mewn cymhariaeth â Chyllideb Derfynol 2020-21.

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

Newidiadau rhwng y Terfynau Gwariant Adrannol o ran **Refeniw*** yn y Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22 a'r Cyllideb Derfynol ar gyfer 2020-21 (wedi'i hailddatgan fel cymhariaeth, gan gynnwys y £231 miliwn ar gyfer taliadau uniongyrchol y cymhorthdal i ffermydd ond heb gynnwys y dyraniadau dilynol ar gyfer COVID yn 2020-21 a dyraniadau eraill)



*Mae dyraniadau refeniw yn cynnwys costau o ddydd i ddydd fel cyflogau staff a phrynu nwyddau traul a gwasanaethau.

Refeniw fesul portffolio	Newid o flwyddyn i flwyddyn
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £8,682m	+5.2% +£425m
Tai a Llywodraeth Leol** £4,190m	+6.8% +£268m
Addysg £1,625m	+3.7% +£57m
Yr Economi a Thrafnidiaeth £773m	+4.9% +£36m
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig*** £529m	+6.6% +£33m
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu £378m	+3.9% +£14m
Iechyd meddwl, Llesiant a'r Cymraeg £274m	+4.0% +£11m

** Heb gynnwys £1.1bn o incwm o ardrethi annomestig.

*** At ddibenion gwneud cymhariaeth gyfatebol o flwyddyn i flwyddyn, mae swm o £231.145m wedi'i gynnwys ar gyfer taliadau uniongyrchol y cymhorthdal i ffermydd, sy'n adlewyrchu addasiad a wnaed yn y Cyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2020-21.

Mae ffigurau wedi'u talgrynnu. Dylech gyfeirio at Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 i weld yr union ffigurau.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Ymchwil y Senedd
Senedd Research

Ffynhonnell: Ymchwil y Senedd

3. Tryloywder gwariant ar blant

'Uchafswm yr adnoddau sydd ar gael'

4. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (y Mesur) yn golygu bod angen i Weinidogion Cymru roi 'sylw dyledus' i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mhopeth y maent yn ei wneud. Mae Erthygl 4 o'r Gonfensiwn yn dweud:

States Parties shall undertake all appropriate legislative, administrative, and other measures for the implementation of the rights recognized in the present Convention. With regard to economic, social and cultural rights, States Parties shall undertake such measures **to the maximum extent of their available resources** and, where needed, within the framework of international co-operation.

5. Trwy gydol y Senedd hon rydym wedi pwysleisio y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth glir am sut y mae wedi asesu effaith ei Chyllidebau Drafft ar blant a phobl ifanc, yn unol â'i dyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn o dan y Mesur.

6. Rydym wedi galw'n gyson ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno'n gliriach yn nogfennaeth y Gyllideb Ddrafft sut y mae adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu dyrannu. Roedd ein hadroddiad ar Asesu Effaith Penderfyniadau'r Gyllideb yn 2019 yn cyfeirio at hyn fel her sy'n codi dro ar ôl tro.²

7. Mae'r dystiolaeth sydd wedi llywio ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar Hawliau Plant yng Nghymru yn awgrymu bod gan randdeiliaid rwystredigaethau amlwg ynghylch pa mor gyflym y mae'r Mesur wedi dylanwadu ar bolisi a gwariant.

8. Roedd ein hadroddiad ar Hawliau Plant yn gwneud dau argymhelliad sy'n ymwneud yn benodol â gwariant Llywodraeth Cymru. Yn gyntaf, argymhellodd:

Y dylai Llywodraeth Cymru ailddatgan ei hymrwymiad i sicrhau bod y gofynion deddfwriaethol o ran hawliau plant yn cael eu hadlewyrchu'n llawn ac yn effeithiol yn ei phenderfyniadau ariannol ar draws pob portffolio, a hynny trwy ddiwygio'i Chynllun Gwella'r Gyllideb yn gyflym

² Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau; Pwyllgor Cyllid, Asesu effaith penderfyniadau'r gyllideb, Mawrth 2019

er mwyn egluro'r camau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd "sylw dyledus" ym Mesur Hawlia Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

- 9.** Yn ymateb Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020, dywedodd ei bod yn derbyn yr argymhelliad hwn:

This Government is fully committed to fulfilling the legislative requirements for all impact assessments, including where these relate to the assessment of our financial decisions. We are committed to continuously improving our approach to assessing the impacts of our budget proposals which is why we set out in the Budget Improvement Plan (BIP) the steps we intend to take over the next five years, including short-term and medium-term milestones. As was outlined in the first BIP, we intend to refine and update the plan annually on a rolling five year horizon, and publish it alongside the annual draft Budget.

- 10.** Roedd ein hail argymhelliad, a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â thryloywder gwariant ar blant, fel a ganlyn:

Y dylai Llywodraeth Cymru ddychwelyd i gyhoeddi Asesiad unigol o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer ei Chyllideb Ddrafft i ddangos ei bod yn cydymffurfio â'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, nes y gellir sicrhau'r Pwyllgor hwn y gall yr Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft ddangos bod y ddyletswydd i roi "sylw dyledus" i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'i harfer.

- 11.** Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn gan ddatgan:

The Integrated Impact Assessment tool provides a single, integrated framework that guides policy and legislative development. The tool helps us to undertake a rounded assessment of the impact of a proposed action, including the social, economic, cultural and environmental effects. [...]

Within the Integrated Impact Assessment tool there are screening questions to determine whether a more detailed analysis of a particular topic is needed. For children's rights, the screening stage is statutory for all proposals, and a full assessment is required depending on the outcome of the screening stage. This process enables impact on children to be considered throughout the process.

We believe that taking an integrated approach to impact assessments of the draft budget through the Strategic Integrated Impact Assessment better reflects our responsibility to consider our decisions in the round through a number of lenses to understand their impact, including consideration of children's rights.

12. Er bod dyraniadau addysg yn symlach nag iechyd o ran eu cysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc (yn enwedig ar gyfer addysg cyn-16), nid yw hynny heb ei heriau. Ariennir cyllidebau craidd ysgolion yn bennaf gan y Setliad Llywodraeth Leol sydd heb ei neilltuo. Roedd ein hadroddiad yn 2019 ar gyllid ysgolion yn amcanu i graffu ar y mater hwn yn fanwl, ac mae ein gwaith craffu ar y penderfyniadau cyllido sy'n deillio o adroddiad Sibieta, Adolygiad o wariant ysgolion yng Nghymru, sy'n cysylltu â'n gwaith yn y maes hwn yn cael ei drafod yn fanylach ym mharagraffau 67 i 75 yr adroddiad hwn.

13. Yn ystod ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft 2021-22, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a allai ddweud wrthym tua faint o'r £9.2 biliwn yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi'i ddyrannu i ddarpariaeth sy'n benodol i blant a phobl ifanc. Atebodd yntau:

I don't think I can do that in the way the committee would want me to, and that's because, as we've touched on before in the budget conversation, the great majority of budget that we have is allocated in an hypothecated way for health boards and trusts for their delivery plans.³

14. Cawsom sicrwydd gan y Gweinidog fod plant yn cael cyfran deg o gyllid ochr yn ochr â gwasanaethau oedolion,⁴ gan ychwanegu:

[...] within the planning framework we're very clear about our expectations for children and young people's services. In particular, there's a section around children and young people with priorities

³Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 163], 21 Ionawr 2021

⁴Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 166], 21 Ionawr 2021

around prevention, timely access, primary community care, mental health and reducing health inequalities.⁵

15. Gofynnem i'r Gweinidog am y cyllid neilltuedig a ddarperir i Fyrddau Iechyd. O ystyried bod rhai Byrddau Iechyd yn parhau i fod mewn sefyllfa ariannol anodd iawn, roeddem yn awyddus i ddeall sut mae'r Gweinidog yn asesu p'un a yw eu dyraniadau ariannol yn ddigonol i gyflawni blaenoriaethau parhaus y Llywodraeth mewn perthynas ag iechyd plant a phobl ifanc.

16. Dywedodd y Gweinidog wrthym y credai y bu cynnydd gwirioneddol o ran disgyblaeth ariannol o fewn byrddau iechyd yng Nghymru.⁶ Cyfeiriodd hefyd at fformiwlâu cyllido'r byrddau iechyd a'r ffaith bod plant a phobl ifanc wedi'u cynnwys ynddynt.

Dyraniadau traws-bortffolio

17. Gwyddwn fod y polisïau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn torri ar draws portffolios Llywodraeth Cymru a'r cyllidebau cysylltiedig. Fel Pwyllgor, rydym yn arbennig o ymwybodol o'r portffolio Llywodraeth Leol a'r dyraniadau a wneir drwy'r Grant Cymorth Refeniw ar gyfer addysg a gofal cymdeithasol.

18. Gofynnem i'r Gweinidog Addysg sut mae hi wedi gweithio gyda Gweinidogion eraill ar draws y Llywodraeth i sicrhau dull traws-bortffolio o ystyried y blaenoriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc.

19. Meddai'r Gweinidog Addysg

Clearly, cross-collaboration through portfolios is particularly important in education—so, working very closely with the Minister for Housing and Local Government, recognising that where schools get the vast majority of their money from is via the local government settlement; working with her to, for instance, ensure that we have got the additional money for local authorities to provide continuity of support for free-school-meal children right the way through, now, this budget round. We know that taking that pressure off families—that they know that they can

⁵Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 163], 21 Ionawr 2021

⁶Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 177], 21 Ionawr 2021

count on the continued provision of free-school-meal support during the school holidays I think is particularly important.⁷

20. Aeth ymlaen i gyfeirio at ddyraniadau cydweithredol ar gyfer iechyd meddwl a chyfraddau cyflog addysg blynyddoedd cynnar, gan ddweud:

I'm very, very pleased that we have been able to work with colleagues in the health field to identify additional resources in this budget to support our shared agenda and children's mental health and well-being. So, for 2021-22, the Minister for Health and Social Services and I have identified funding totalling £3.8 million to harmonise funding rates for early years and foundation phase. So, that's another area where that's been a longstanding concern in the sector and we've been able to address that. So, mental health, local government, free school meals and childcare rates are just some examples of where we've worked together to do that.⁸

21. Pan wnaethom ofyn i'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y trafodaethau gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai ynghylch plant sy'n derbyn gofal, dywedodd wrthym:

And then, we've had, as I say, with the local government Minister and with the local government, a considerable amount of discussion about safe accommodation for children, particularly for children with complex needs, because those are the children that Eluned has already mentioned in her responses to you, who do need some specific residential provision, and we really want them to stay in Wales, we want them to stay near to their homes, near to their families and friends, and that is why we've put this £2 million that Eluned also referred to in the ICF fund in order to develop complex provision for children with complex needs. And that is to try to stop the children escalating so that they need in-patient mental health provision, or sometimes go on the juvenile justice route; we want this to stop that happening [...]⁹.

⁷Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 60], 21 Ionawr 2021

⁸Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 61], 21 Ionawr 2021

⁹Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 246], 21 Ionawr 2021

Tryloywder mewn perthynas â dyraniadau COVID-19

- 22.** Yn ychwanegol at yr heriau arferol o archwilio'r dyraniadau i blant, mae'r cyfnod hwn yn un digynsail. Mae pandemig COVID-19 yn golygu ein bod yn wynebu rhai heriau hollol newydd ac y bu—ac y bydd—newidiadau sylweddol i'r ffordd y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddyrannu arian.
- 23.** Yn nogfennaeth y gyllideb, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod Adolygiad Gwariant y DU 2021 yn cynnwys dyraniad canlyniadol o £766 miliwn ar gyfer Cymru yn ymwneud â chyhoeddiadau gwariant yn Lloegr sy'n gysylltiedig â'r pandemig.
- 24.** Mae pecyn cychwynnol o £77 miliwn sy'n gysylltiedig â COVID-19 yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 ar draws yr holl bortffolios. O hyn, dyrannwyd £12 miliwn i raglen 'dal i fyny' ysgolion, sef Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, a drafodir yn fanylach yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.
- 25.** Mae'r Gyllideb Ddrafft hon hefyd yn cynnwys £811 miliwn o gronfeydd refeniw wrth gefn heb eu dyrannu. Mae hyn yn golygu y gall mwyafrif helaeth y dyraniadau COVID-19 dros y flwyddyn ariannol sydd i ddod syrthio y tu allan i waith craffu'r Senedd ar y Gyllideb Ddrafft.
- 26.** Yn ôl adroddiad Archwilio Cymru, yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol 2020-21, £501 miliwn oedd cyfanswm cost net y GIG yn gysylltiedig â COVID-19. Erbyn i Archwilio Cymru gyhoeddi'r ffigur hwn ym mis Tachwedd 2020, roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol o £495 miliwn at ddibenion iechyd a gofal cymdeithasol i reoli'r ymateb i COVID-19. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd gyllid sefydlogi pellach o £800 miliwn ym mis Awst 2020 ar gyfer y GIG yn 2020-21. Aeth hyn â chyfanswm y gefnogaeth Covid-19 i sefydliadau'r GIG i dros **£1.3 biliwn**

Dyraniadau COVID-19 i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg

- 27.** Gofynnwyd i'r Gweinidog Addysg am y ffaith bod y gyllideb hon yn cael ei chyflwyno mewn cyfnod o ansicrwydd digynsail, a sut y bydd llwybr newidiol y pandemig ers mis Rhagfyr yn effeithio ar Brif Grŵp Gwariant Addysg 2021-22 a chyllid ysgolion.

28. Dywedodd y Gweinidog Addysg wrthym y bydd angen i'r Llywodraeth barhau i adolygu gwariant¹⁰. Aeth ymlaen i ddweud:

[...] we've worked really hard across the Government to look at the broader impact of the pandemic on public services, and we've looked to try and instigate the fairest possible settlement to help partners prepare for the challenges they're facing now, and the challenges they're facing ahead.

[...] the changed path of the pandemic and especially the increased risk of transmissibility has resulted in further disruption to education, and we will need to look at how that potentially affects spending going forward. But we've tried to anticipate some of that—there's £12 million of the 2021-22 element of the recruit, recover and raise standards fund.¹¹

29. Gofynnwyd hefyd i'r Gweinidog Addysg egluro pa brosesau sydd ar waith i nodi a blaenoriaethu unrhyw gyllid ychwanegol o gronfeydd wrth gefn a allai fod eu hangen yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol oherwydd y pandemig. Roeddem yn awyddus i ddeall beth yw prif flaenoriaethau'r Gweinidog pe bai cyllid ychwanegol ar gael.

30. Dywedodd wrthym fod yr heriau newidiol yn sgil y pandemig yn golygu bod cronfeydd wrth gefn yn ddull synhwyrol yn hynny o beth.¹² Dywedodd fod cysylltiad agos iawn â'r Gweinidog Cyllid wrth ystyried dyraniadau mewn cyllidebau yn y dyfodol unwaith y gellir asesu'n well sut y mae angen targedu'r cyllid wrth symud ymlaen¹³.

31. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

In allocating any new funding, our approach will continue to be guided by the evidence about where we need to put those resources. So, I

¹⁰ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 51], 21 Ionawr 2021

¹¹ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 50-51], 21 Ionawr 2021

¹² Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 53], 21 Ionawr 2021

¹³ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 53], 21 Ionawr 2021

would argue that we're already trying to support our key priorities for investment¹⁴.

32. Esboniodd ymhellach, yng nghyd-destun cyllid ychwanegol, mai'r blaenoriaethau presennol yw¹⁵:

- cefnogi dysgwyr mewn blynyddoedd arholiad;
- dysgwyr difreintiedig;
- addysg bellach a'r heriau ymarferol o ddarparu cymwysterau galwedigaethol a darparu yn y maes hwnnw wrth inni symud ymlaen;
- allgáu digidol a chefnogaeth ar gyfer dysgu o bell.

Dyraniadau COVID-19 i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol

33. O ran y dyraniad ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i blant, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y pecyn cychwynnol o gyllid COVID-19 gwerth £77 miliwn ar draws yr holl bortffolios ar gyfer 2021-22. Roeddem am wybod pa anghenion iechyd a gofal cymdeithasol penodol i blant a ystyriwyd yn y dyraniad cychwynnol hwn, a beth fyddai dull y Gweinidog wrth ddyrannu gweddill y pecyn cyllido sylweddol hwn ar draws portffolios y Llywodraeth.

34. Dywedodd y Gweinidog wrthym mai'r £77 miliwn hwn 'yw'r dyraniad cyntaf i'r Llywodraeth gyfan' ac 'o fewn y £77 miliwn hwnnw, £10 miliwn yw'r gyfran sy'n ymwneud ag iechyd, a hynny ar gyfer olrhain cyswllt, er mwyn buddsoddi yn hynny'.¹⁶ Aeth ymlaen i ddweud y byddai 'blaenoriaethau'r dyfodol' yn cynnwys brechu, profi a chynnal a chadw ysbytai maes:

[...] not all of those are necessarily directly and specifically and uniquely about children and young people. But what we do know is for a path out of where we are with lockdown and all the alternative harms it causes, despite the fact that it reduces transmission, children and young people are a group of people who actually do have a real harm

¹⁴Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 53], 21 Ionawr 2021

¹⁵Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 53], 21 Ionawr 2021

¹⁶Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 168], 21 Ionawr 2021

that comes from lockdown. So, all of those things may not be directly about children and young people, but the sooner we get out of lockdown with suppressed and reduced—and sustainably reduced—virus transmission, there'll be a definite benefit for the rights and interests of children and young people.¹⁷

EIN BARN: TRYLOYWDER GWARIANT AR BLANT

35. Rydym yn nodi ac yn croesawu'r cynnydd yn nyraniadau Cyllideb Ddrafft 2021-22 ar draws y portffolios, yn enwedig yn y Prif Grwpiau Gwariant hynny sydd â'r potensial mwyaf i effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc: Addysg, Llywodraeth Leol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Meddwl.

36. Fodd bynnag, rydym yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod eto ein hargymhelliad i gyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ochr yn ochr â'i chynnig Cyllideb Ddrafft fel y nodir yn ein Hadroddiad ar Hawliau Plant ym mis Awst 2020. Roedd ein hargymhelliad yn seiliedig ar dystiolaeth gan randdeiliaid allweddol. Nid ydym yn cytuno bod yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn 'adlewyrchu'n well' y cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i ystyried penderfyniadau yn y cylch drwy nifer o safbwyntiau er mwyn deall eu heffaith, gan gynnwys ystyried hawliau plant.¹⁸

37. Mae'n glir inni y gall dyraniadau ar draws portffolios Llywodraeth Cymru gael effaith enfawr ar fywyd plant a phobl ifanc. Dyna sy'n ein cymell i graffu i ba raddau y mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio ar y cyd yn hyn o beth. Rydym yn arbennig o falch o glywed am dystiolaeth o'r ffordd gydgyssylltiedig o ariannu'r dull ysgol gyfan ar gyfer ymdrin ag iechyd meddwl a hefyd wrth gysoni cyfraddau cyflog rhwng y sector nas cynhelir a'r sector a gynhelir ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar. Mae'r ddau beth yma yn bethau y mae'r Pwyllgor hwn wedi'u hargymhell, yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl a'n hadroddiad craffu Cyfnod 1 ar y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru).

38. Ym mharagraffau 178 i 181 o'r adroddiad hwn, rydym yn mynegi ein siom ynghylch y diffyg tryloywder ynghylch gwariant ar blant ers uno ystod o grantiau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â phlant o fewn y Grant Plant a Chymunedau a'i drosglwyddo i'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Thai ddwy flynedd yn ôl. Ar y pryd, gwnaethom fynegi ein pryder a gwneud argymhellion ynglŷn â hyn. O

¹⁷Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 169], 21 Ionawr 2021

¹⁸ Llywodraeth Cymru, [ymateb i'r adroddiad ar Hawliau Plant](#), Medi 2020

ystyried bod cyfanswm y Grant Plant a Chymunedau hwnnw, gwerth dros £138 miliwn, yn swm sylweddol o arian, mae'n hanfodol nad yw'r dyraniad ar draws portffolios yn arwain at ddiffyg tryloywder ynghylch gwerth am arian a chanlyniadau. Mae argymhelliad 26 yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu ein pryderon.

39. Gyda swm sylweddol o arian refeniw eto i'w ddyrannu ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn rhoi 'sylw dyledus' i hawliau plant wrth wneud y penderfyniadau Cabinet hyn.

40. Rydym yn deall yn iawn bod y gyllideb hon yn cael ei chyflwyno mewn cyfnod o ansicrwydd digynsail. Mae'n amlwg hefyd, ers cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft hon ym mis Rhagfyr 2020, fod cwrs y pandemig wedi gwaethygu.

41. Er ein bod yn cydnabod yr angen am hyblygrwydd yn y Gyllideb Ddrafft hon er mwyn ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i bandemig COVID-19, nodwn fod mwyafrif helaeth dyraniadau 2021-22 sydd â'r bwriad o fynd i'r afael ag effaith COVID-19 ac sydd i'w gwneud dros y flwyddyn ariannol sydd i ddod y tu allan i waith craffu'r Senedd ar y Gyllideb Ddrafft (cyfanswm o dros £811 miliwn o refeniw heb ei ddyrannu).

42. Mae maint y cyllid sydd heb ei ddyrannu ar gyfer 2021-22 yn gwneud ein gwaith craffu yn fwy heriol, ond ar hyn o bryd rydym yn falch o gael sicrwydd bod dyraniadau o gronfeydd wrth gefn yn cael eu gwneud yn seiliedig ar ddangos bod eu hangen a thrwy waith traws-lywodraethol.

Argymhelliad 1. Bod y Pwyllgor sy'n ein dilyn ni yn y Chwched Senedd yn monitro'r ymrwymiad a wneir yn ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar Hawliau Plant i fireinio a diwygio ei Chynllun Gwella'r Gyllideb, gan adlewyrchu ei gydymffurfiaid â Mesur 2011 wrth gyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft 2022-23.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau proses dryloyw ar gyfer dyrannu cyllid COVID-19 yn ystod y flwyddyn, a dylai'r ddyletswydd gyfreithiol i roi 'sylw dyledus' i hawliau plant a phobl ifanc fod yn ystyriaeth i holl Weinidogion Llywodraeth Cymru wrth benderfynu ar y dyraniadau y maent yn gofyn amdanynt.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chyhoeddi ei Chyllideb Atodol, ddarparu diweddariadau rheolaidd a manwl i'r Senedd a'r pwyllgorau perthnasol ar y dyraniadau a wneir yn ystod y flwyddyn ym mlwyddyn ariannol 2021-22, er mwyn sicrhau y cynhelir gwaith craffu cadarn ar y swm sylweddol hwn o gyllid ychwanegol at ddibenion COVID-19.

Argymhelliad 4. Dylai holl Weinidogion Llywodraeth Cymru barhau i roi ystyriaeth i hawliau plant wrth dafoli'r dyraniadau a wnânt o fewn eu portffolio. Dylid ystyried yn barhaus y potensial ar gyfer dyraniadau ar y cyd ar draws portffolios i sicrhau effaith fwy pellgyrhaeddol i'r ystod eang o hawliau plant a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

4. Addysg

Y Prif Grŵp Gwariant Addysg

43. O'i gymharu â chyllideb Gwaelodlin Ddiwygiedig 2020-21, cawsom wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am yr achosion canlynol o gynnydd mewn refeniw a chyfalaf o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg:

- Cynnydd o £60.2 miliwn mewn cyllid refeniw, i £1.625 biliwn;
- Cynnydd o £42 miliwn mewn cyllid cyfalaf, i £251.5 miliwn.

44. Dywedwyd wrthym hefyd fod y cynnydd mewn cyllid refeniw yn cynnwys dyraniad o £57.6 miliwn o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru:

- £7.9 miliwn ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a £0.37m i Cymwysterau Cymru ar gyfer y gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm;
- £5 miliwn ar gyfer adferiad addysg bellach yn dilyn COVID-19;
- £21.7 miliwn ar gyfer cynnydd demograffig mewn sefydliadau chweched dosbarth ac addysg bellach;
- £5.4 miliwn ar gyfer Cyfrifon Dysgu Personol;
- £12 miliwn ar gyfer cyllid 'dal i fyny' i ysgolion yn dilyn COVID-19;
- £1 miliwn ar gyfer Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr;
- £2 filiwn ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad;
- £2.2 miliwn ar gyfer Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf.

Addysg cyn-16

45. Yn ein gwaith craffu ar Gyllidebau Drafft y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi ymchwilio i faterion allweddol fel cyllid ysgolion, cyllid ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chyllid i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad ac

amddifadedd. Mae'r rhain hefyd wedi bod yn destun rhai o'n hymchwiliadau a'n hadroddiadau craffu penodol.

46. Yng nghyd-destun pandemig COVID-19, mae ffocws ehangach eleni i'n gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft. Rydym wedi ystyried sut y gwnaed dyraniadau ar gyfer materion fel: cyllid 'dal i fyny' i helpu disgyblion i ailgydio yn eu haddysg; sut y bydd grwpiau penodol o ddisgyblion angen cymorth wedi'i dargedu i 'ddal i fyny'; a sut y gellir cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

COVID-19: Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau

47. Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau gwerth £29 miliwn ar 9 Gorffennaf 2020. Dywedodd y câi'r cyllid ei ddarparu i ysgolion (trwy awdurdodau lleol), gan ariannu'r hyn sy'n cyfateb i 600 o athrawon ychwanegol a 300 o gynorthwyr addysgu trwy gydol y flwyddyn ysgol nesaf, gan dargedu cefnogaeth ychwanegol ym Mlynnyddoedd 11, 12 a 13, yn ogystal ag i ddysgwyr difreintiedig a bregus o bob oed.

48. Eglurodd y Gweinidog mai £12 miliwn yw'r dyraniad ar gyfer y rhaglen hon ar gyfer 2021-22. Esboniodd hefyd fod dyraniadau'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ar gyfer y flwyddyn 2020-21 fel a ganlyn:

- £17 miliwn;
- £7 miliwn yn ychwanegol ar gyfer 2020-21 at ddibenion hyfforddi a mentora.

49. Rydym wedi ystyried y dyraniad hwn yn rhinwedd ein gwaith craffu parhaus ar effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc. Nodwn fod datganiad i'r wasg Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai staff yn cael eu recriwtio ar gontract tymor penodol blwyddyn o hyd, a disgwylir iddynt symud i rolau addysgol yn y flwyddyn ysgol ganlynol. Roedd y datganiad i'r wasg hefyd yn dweud y byddai adnoddau dysgu proffesiynol yn cael eu darparu i gefnogi athrawon newydd a phresennol.

50. Gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog ar 7 Tachwedd 2020 yn gofyn am fanylion ynghylch faint o swyddi newydd sydd wedi'u creu a sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r ffordd y caiff yr arian ei ddyrannu.¹⁹ Atebodd y Gweinidog ar 19 Tachwedd 2020 gan ddweud:

¹⁹ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Addysg

Ar hyn o bryd, nid oes gennym set lawn o ddata ar nifer yr athrawon a staff eraill sydd wedi'u recriwtio. Er hynny, rydym yn cydweithio ag awdurdodau lleol i ddeall sut y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn defnyddio'r capasiti ychwanegol hwn a natur y cymorth sy'n cael ei greu ganddynt. (...)

Fel Llywodraeth, rydym hefyd wedi cydweithio â Chyngor y Gweithlu Addysg i hyrwyddo'r rhaglen. Cydweithiodd y Cyngor â ni i sicrhau bod ymarferwyr cofrestredig cymwys yn ymwybodol o'r cyfleoedd y gallai'r cynllun eu cynnig. Yn ystod mis Medi, anfonwyd dros 14,000 o e-byst i'r rhai a oedd wedi cofrestru ac yn gymwys, a darparwyd dolen iddynt at ffurflen mynegi diddordeb ar wefan y Cyngor. Cyflwynodd dros 2,300 o unigolion ffurflen i Gyngor y Gweithlu Addysg. Maent bellach wedi'u casglu ar data a'r manylion wedi'u hanfon ymlaen at yr awdurdodau lleol perthnasol. Bydd hyn yn cynorthwyo'r awdurdodau lleol i baru'r mynegiannau o ddiddordeb i bersonél posibl.²⁰

51. Ysgrifennom eto at y Gweinidog ynghylch y mater hwn ar 10 Rhagfyr 2020, fel rhan o'n gwaith craffu ar effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc, gan ddweud

Nodwn nad oes gennych chi "set lawn o ddata ar nifer yr athrawon a staff eraill sydd wedi'u recriwtio" a'ch bod yn "cydweithio ag awdurdodau lleol i ddeall sut y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn defnyddio'r capasiti ychwanegol hwn a natur y cymorth sy'n cael ei greu ganddynt". Mae'n hanfodol bod ysgolion yn defnyddio'r grant i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.²¹

Byddwn yn craffu'n ofalus i sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio yn unol â'ch bwriadau: "i greu swyddi addysgu newydd, cefnogi anghenion dysgwyr a lliniaru effaith colli amser addysgu".

52. Pan ofynnwyd iddo yn ystod ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2021-22 am yr hyn sydd wedi'i ariannu hyd yma gan y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, dywedodd y Gweinidog wrthym:

[...] it's being spent and it's being spent on people's wages predominantly. The vast majority of that money has been allocated to recruit additional people into schools and those people are in schools.

²⁰ Llythyr gan y Gweinidog Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

²¹ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Addysg.

The local authorities report that 1,052 roles have been recruited to utilising the RRR programme funding.

53. Pan ofynnwyd iddo a oedd y dyraniad o £12 miliwn ar gyfer 2021-22 yn ddigonol i gyflawni nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, dywedodd y Gweinidog wrthym:

As we work on plans now for a longer term programme, then we would look to resource that. As I said, I've got no complaints when it comes to the conversations I've had with the Minister for Finance; when we're able to put forward an evidence-based approach for good use of public money, then education is being supported.²²

Cefnogi disgyblion difreintiedig yn ystod ac ar ôl y pandemig COVID-19

54. Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi craffu'n sylweddol ar nod Llywodraeth Cymru i dorri'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad ac amddifadedd, gan gynnwys y dyraniadau y mae wedi'u gwneud dros amser ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion. Rydym eisoes yn gwybod bod y pandemig yn llawer mwy tebygol o effeithio ar ddisgyblion difreintiedig ac felly roeddem am holi'r Gweinidog ynghylch sut roedd dyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn adlewyrchu'r her ychwanegol hon i'r disgyblion hynny.

55. Mae hyd at £3 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2020-21 ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol ar ffurf cefnogaeth yn ôl y galw i awdurdodau lleol dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'r trwyddedau, caledwedd a chysylltedd hyd at 31 Mawrth 2021.

56. Can hynny, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd unrhyw gymorth ariannol pellach i helpu dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, yng ngoleuni'r tarfu parhaus ar addysg, a pha asesiad a wnaeth o unrhyw gostau yn sgil hyn yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

57. Can fod y Gweinidog eisoes wedi dweud wrthym fod 'cysylltedd' yn un o brif achosion y broblem allgáu digidol²³, gwnaethom ofyn a fu unrhyw drafodaethau gyda darparwyr rhyngwyd neu ddarparwyr ffonau symudol ynghylch sut y gallent helpu.

²²Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 74], 21 Ionawr 2021

²³Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 8], 21 Ionawr 2021

58. Atebodd y Gweinidog Addysg.

[...] those discussions have been happening between officials and telecommunications companies of all sorts, and there is a real keenness on behalf of those organisations to assist where they can²⁴.

59. Aeth yn ei blaen i ddweud:

I've recently approved further investment of just under £12 million in this financial year to purchase an additional 50,000 devices for schools²⁵.

60. Tynnodd y Gweinidog Addysg sylw at ddyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion o dros £100 miliwn, gan ddweud bod hwn yn ddyraniad mwy nag erioed o'r blaen. Soniodd hefyd am y cyllid Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad, sy'n darparu grant o £125 i blant sydd â hawl i brydau ysgol am ddim i helpu gyda phrynu gwisg ysgol, offer a chyfarpar. Dywedodd y Gweinidog

With regard to PDG access, which, of course, is demand led, an early indication from the pupil level annual school census data reports an increase in demand for that budget, and that has been reflected in an increase to the PDG baseline to be able to respond appropriately to what we perceive will be an increased demand because of the economic circumstances that families will find themselves in, and therefore wanting to access support that is available²⁶.

Diwygio'r cwricwlwm

61. Mae Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) Llywodraeth Cymru wrthi'n mynd drwy Gyfnod 3 o broses ddeddfwriaethol y Senedd. Os caiff ei basio, bydd yn darparu'r sylfaen statudol o ran gwaith diwygio'r cwricwlwm Llywodraeth Cymru ar gyfer plant 3 i 16 oed. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn raddol o fis Medi 2022.

²⁴ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 106], 21 Ionawr 2021

²⁵ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 106], 21 Ionawr 2021

²⁶ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 108], 21 Ionawr 2021

62. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn cynnwys dyraniad ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Esboniodd y Gweinidog Addysg fod hyn yn cynnwys:

- £8.3 miliwn yn ychwanegol tuag at gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn ogystal ag 'adnoddau ychwanegol ar gyfer rhannau eraill o'r gwaith diwygio fel Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg'²⁷;
- £15 miliwn ar gyfer cronfeydd dysgu proffesiynol athrawon;
- £5.5 miliwn i'r consortia rhanbarthol;
- £1 miliwn i Cymhwyster Cymru²⁸.

63. Gofynnwyd i'r Gweinidog fanylu ar y sail ar gyfer y dyraniadau hynny a pha ffynonellau gwybodaeth eraill yr oedd wedi'u hystyried a allai helpu i ddeall yn well faint sydd ei angen ar gyfer 2021-22 ac ymhellach yn y dyfodol. Dywedodd un o swyddogion y Gweinidog wrthym:

[...] the Minister will be making an announcement in relation to the curriculum implementation plan²⁹, which will set out a range of activities as well as a range of partners who will be delivering on those activities. It's been built on an evaluation with those groups of the work to date³⁰.

64. Aeth y swyddog ymlaen i ddweud:

There have been some challenges, for example, around the professional learning. We're at early days³¹.

65. Aeth y Gweinidog ymlaen i sôn am gyfarfod â Chonsortium Canolbarth y De, gan ddweud:

²⁷ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 96], 21 Ionawr 2021

²⁸ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 97], 21 Ionawr 2021

²⁹ Cafodd y Cwricwlwm newydd i Gymru: Cynllun gweithredu ei gyhoeddi ar 27 Ionawr 2021.

³⁰ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 101], 21 Ionawr 2021

³¹ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 101], 21 Ionawr 2021

[...] even in these most difficult times, we're delivering it slightly differently, but there is a real desire and a real demand for professional learning opportunities [...]³².

66. Gwnaethom ystyried y goblygiadau ariannol yn sgil diwygio'r cwricwlwm fel rhan o'n gwaith craffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) a gwnaethom sawl argymhelliad yn ein hadroddiad Cyfnod 1.

Cyllido ysgolion

67. Ariennir cyllidebau craidd ysgolion yn bennaf gan y Setliad Llywodraeth Leol sydd heb ei neilltuo. Mae paragraff 12 uchod yn cyfeirio at gyllid ysgolion yng nghyd-destun angen Llywodraeth Cymru i fodloni'r ddyletswydd i roi 'sylw dyledus' i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Pentyn, a hynny ar draws ei holl bortffolios, gan gynnwys llywodraeth leol.

68. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am ei barn am y cydbwysedd yn y Gyllideb Ddrafft hon rhwng yr hyn a ddylai fod yn y Grant Cynnal Refeniw i ysgolion a faint ddylai fod o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg, fel bod ganddi reolaeth uniongyrchol dros y cyllid hwnnw.

69. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

Well, you're right, it is a balancing act, recognising that the vast majority of money that goes to schools comes from the local education authority and therefore ensuring that the revenue support grant to local government is as good as it needs to be and having conversations, not only with the Minister for local government, but indeed the leaders of local government themselves about the need within that budget to prioritise schools and to ensure that as much of that money gets to the front line—.

What we then do in the education department is look to see where we need to add value on top of that basic core funding for education to deliver against specific Welsh Government priorities³³.

70. Ychwanegodd y Gweinidog:

³²Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 102], 21 Ionawr 2020

³³Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 83], 21 Ionawr 2021

[...] we have to trust our colleagues in local government to respond to the needs in their local communities. I mean, we've been very clear—both myself and the Minister for local government—about the need to use the revenue support grant to support front-line services and to get as much money as possible out to schools³⁴.

71. Roedd ein hadroddiad yn 2019 ar gyllid ysgolion yn ystyried yn fanwl nifer o faterion perthnasol gan gynnwys pa mor ddigonol yw cyllid ysgolion ac i ba raddau y mae lefel y ddarpariaeth ar gyfer cyllidebau ysgolion yn cefnogi neu'n atal cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

72. O ganlyniad, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o wariant ysgolion yng Nghymru gan Luke Sibieta, ac fe'i cyhoeddwyd yn 2020.

73. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am y dystiolaeth yn ei phapur i ni nad yw'r adolygiad o wariant ysgolion yng Nghymru wedi effeithio'n uniongyrchol ar ddyraniadau yn y gyllideb ddrafft hon, ond y bydd yn llywio penderfyniadau yn y dyfodol.

74. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

[...] the work was commissioned in very different circumstances', and I certainly wouldn't think that in the middle of a pandemic, when we're all dealing with as much as we're dealing with, that a whole-scale change to how we fund our schools would have been appropriate.

75. Aeth ymlaen i sôn sut y mae adroddiad Sibieta wedi dylanwadu ar gyllid ar gyfer dysgwyr rhwng 16 a 19 oed, yn chweched dosbarth ysgolion ac mewn colegau, gan ychwanegu:

So, although we haven't been able to have the bandwidth, both within Government and outside of Government, for that whole-scale debate about school funding and mechanisms for school funding and funding formula, we have been able to take some of the headline issues and try to react accordingly³⁵.

³⁴ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 85], 21 Ionawr 2021

³⁵ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 88], 21 Ionawr 2021

Dull ysgolion cyfan a systemau cyfan wrth ymdrin ag iechyd meddwl

76. O ystyried effaith y pandemig ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc, rydym yn croesawu'r dyraniad gwerth £9 miliwn yn 2021-22 o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ariannu'r dull ysgol gyfan. Caiff mwy o fanylion am ein gwaith craffu ar y ddarpariaeth iechyd meddwl a'n hargymhellion yn hyn o beth eu trafod yn fanylach yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, lle rydym ni'n amlinellu cwestiynau pellach i'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Iaith Gymraeg.

77. Gwnaethom ofn i'r Gweinidog Addysg a oedd hi'n credu y bydd y cynnydd mewn dyraniad at ddibenion dull ysgol gyfan wrth ymdrin ag iechyd meddwl a lles yn ddigonol i ddiwallu'r galw posibl. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

I'm very grateful to my colleague the Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language for providing an additional £4 million to support that work. That additional funding builds on the £5 million that we made available in 2020-21 previously, and that will go to support our response to COVID-19. That's a significant increase on where we began these particular interventions³⁶.

EIN BARN: ADDYSG CYN-16

78. Mae Erthygl 28 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dweud bod gan bob plentyn yr hawl i addysg.

79. Rydym yn croesawu'r manylion a ddarparwyd mewn tystiolaeth lafar am y gwariant ar gyllid y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau. Flwyddyn yn ôl, byddai wedi bod yn amhosibl rhagweld sefyllfa lle byddai adeiladau ysgolion ar gau am gyfnodau mor hir gan arwain at golli oriau addysgu o ganlyniad. Mae'r cyllid hwn yn hanfodol. Rhaid inni sicrhau ei fod yn cyflawni'r effaith a fwriadwyd, ac y gellir gwneud penderfyniadau cyflym wrth ddyrannu dyraniadau ychwanegol i gefnogi ein dysgwyr yn ôl yr angen. Rydym yn croesawu'r dystiolaeth gan y Gweinidog Addysg fod dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i helpu dysgwyr i ddal i fyny â'r amser addysgu a gollwyd yn ystod pandemig COVID-19 yn cael eu cefnogi gan y Gweinidog Cyllid.

³⁶ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 110], 21 Ionawr 2021

80. Rydym yn nodi na fu'r gwariant ar y Grant Datblygu Disgyblion erioed yn uwch, ac rydym yn croesawu ymdrechion Llywodraeth Cymru i gefnogi disgyblion difreintiedig a lleihau'r bwlch yn eu cyrhaeddiad o gymharu â disgyblion eraill. Rydym yn pryderu gan y dylid ystyried a allai fod angen unrhyw newidiadau dros dro i'r cyllid hwn yn 2021-22 i ddarparu ar gyfer y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig ac er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl o'r dyraniad sylweddol hwn.

81. Rydym yn nodi'r dyraniadau parhaus i gefnogi'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm, er enghraifft y £15 miliwn ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon. Roeddem yn falch o glywed tystiolaeth y Gweinidog bod 'gwir awydd a galw gwirioneddol am gyfleoedd dysgu proffesiynol'. Fodd bynnag, rydym yn pryderu wrth glywed tystiolaeth gan swyddog y Gweinidog y bu rhai heriau, er enghraifft, yn ymwneud â dysgu proffesiynol, a'r farn mai 'dyddiau cynnar yw hi o hyd'. Hoffem gael sicrwydd bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r holl ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael iddi i sefydlu beth yw gwir gost diwygio'r cwricwlwm ar gyfer 2021-22 ac wrth symud ymlaen.

82. Roeddem yn falch o glywed bod y Gweinidog wedi gallu cyflwyno rhai o'r prif themâu yn adolygiad Sibieta o gyllid ysgolion (Hydref 2020). Rydym hefyd yn nodi ei thystiolaeth na fyddai newid cynhwysfawr i'r ffordd yr ariennir ysgolion wedi bod yn briodol yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf³⁷. Fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru gadw ffocws cadarn ar y mater ehangach o gyllido ysgolion. Er y bu cyhoeddiad cyffredinol o £36 miliwn ar gyfer y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, mae hyn yn ansylweddol o'i gymharu â'r cyllid ar gyfer ysgolion yn y Grant Cynnal Refeniw.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chonsortia, awdurdodau lleol ac ysgolion i barhau i ddatblygu dulliau wedi'u prasio sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda'r nod o gynorthwyo dysgwyr i ddal i fyny ar ôl pandemig COVID-19. Dylai'r gwaith hwn lywio ceisiadau'r Gweinidog am gyllid ychwanegol o gronfa COVID-19 Llywodraeth Cymru sydd heb ei dyrannu hyd yma ar gyfer 2021-22.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu adolygiad o effeithiolrwydd y gwahanol ddulliau o addysg ar-lein ac addysg gyfunol er mwyn llywio dyraniadau o gronfeydd COVID-19 Llywodraeth Cymru.

³⁷Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 87], 21 Ionawr 2021

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o fanylion inni am y 1052 rôl y recriwtiwyd ar eu cyfer gan ddefnyddio cyllid y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am:

- sut y defnyddiwyd y cyfanswm sydd wedi'i wario hyd yma, yn benodol p'un a fu'r gwariant ar ddeiliaid swyddi newydd neu ddeiliaid swyddi presennol, ac
- o ble y recriwtiwyd y deiliaid swyddi newydd (er enghraifft, a fu patrwm amlwg lle gwelwyd athrawon wedi ymddeol neu athrawon cymwys yn cael eu denu yn ôl i'r proffesiwn?).

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data tryloyw a rheolaidd yn barhaus ynghylch gwariant ar y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cyflym o'r prif bwyntiau gwariant o ran y Grant Datblygu Disgyblion yn 2020-21 i asesu i ba raddau y gellir defnyddio cyllid yn unol â Chanllawiau'r grant hwnnw, o ystyried y cyfyngiadau corfforol yn sgil y pandemig. Dylai canfyddiadau'r adolygiad hwn bennu a oes angen unrhyw newidiadau interim ar gyfer y flwyddyn 2021-22.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn defnyddio'r holl ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i lywio ei hunion ddyraniadau i gefnogi'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm er mwyn sefydlu'r gwir gost ar gyfer 2021-22 ac ar gyfer y dyfodol.

Argymhelliad 11. Erbyn diwedd y Pumed Senedd, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r dull dymunol ar gyfer gweithredu argymhellion ein hadroddiad ar ariannu ysgolion a chanfyddiadau adolygiad Sibieta. Byddai hyn yn gosod sylfaen i'r llywodraeth nesaf weithredu'n gyflym.

Addysg ôl-16

Dyraniadau i addysg bellach a'r chweched dosbarth

83. Darparodd Llywodraeth Cymru wybodaeth bod addysg bellach a darpariaeth chweched dosbarth wedi derbyn £40 miliwn pellach yn y Gyllideb Ddrafft. Mae hyn yn cynnwys £32.1 miliwn o gronfeydd wrth gefn a £7 miliwn o arbedion yn y gyllideb cymorth i fyfyrwyr. Mae £5 miliwn o'r cynnydd hwn wedi'i fwriadu ar gyfer cyllid 'dal i fyny' yn dilyn COVID-19.

84. Yn ôl yr arfer, o ran amseru, nid yw'r dyraniadau unigol i ddarparwyr addysg bellach a chweched dosbarth wedi'u gwneud eto ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021/22.

85. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn o £40 miliwn ar gyfer darpariaeth addysg bellach a'r chweched dosbarth wedi'i dyrannu i ariannu'r cynnydd disgwylidig yn nifer y dysgwyr, a hynny'n gyfanswm o £27.1 miliwn. Fodd bynnag, nid oedd yn glir i ni a oedd y cynnydd hwn yn cael ei wneud i lefel y cyllid fesul myfyriwr ynteu a yw'n adlewyrchu nifer cynyddol o ddysgwyr.

86. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am fanylion pellach am hyn, ac eglurodd ei swyddog:

It's an increase in the number of learners, primarily. There have been adjustments in terms of the level of funding per learner, and we've been keen to make sure that there's parity between the students and pupils in different institutions³⁸.

87. Mae papur y Gweinidog hefyd yn nodi mai diben y trosglwyddiad o £7 miliwn o'r gyllideb cymorth i fyfyrwyr yw 'darparu cefnogaeth bellach i chweched dosbarth ac ymrwymadau addysg bellach'.

88. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am fanylion pellach ar hyn, a dywedodd wrthym:

The £7 million is a contingency, which we have always kept back in recent years. That has meant that we haven't always used that money, so rather than just sitting on it at the moment, from the past experience, we feel that we can adequately move that money to be deployed in another area³⁹.

89. Aeth swyddog y Gweinidog ymlaen i ddweud:

³⁸Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 127], 21 Ionawr 2021

³⁹Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 117], 21 Ionawr 2021

The £7 million is a transfer to the further education provision budget expenditure line to support our commitment to lifelong learning and the work that we're doing to develop offers in that area⁴⁰.

Dyraniadau i addysg uwch

90. Yn ôl gwybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, mae darpariaeth addysg uwch wedi cael £25 miliwn yn ychwanegol yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22, gan ddod â llinell gyllideb HEFCW i £201.9 miliwn. Mae papur y Gweinidog yn nodi bod disgwyl dyraniad pellach o dros £5 miliwn er mwyn ariannu prentisiaethau gradd newydd a pharhaus.

91. Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd y trosglwyddiad hwn o £25 miliwn i addysg uwch o'r gyllideb cymorth i fyfyrwyr wedi'i fwriadu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ail-fuddsoddi yn y sector ei harbedion sy'n deillio o adolygiad Diamond.

92. Cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi gallu cadw at ei hymrwymiad i sicrhau bod yr arbedion a wnaed o ganlyniad i ddiwygio cyllid addysg uwch yn cael eu hail-fuddsoddi yn syth yn ôl yn y sector⁴¹.

93. Cyfeiriodd swyddog y Gweinidog at 'y cyhoeddiad yn gynharach yr wythnos hon o £40 miliwn ar gyfer addysg uwch i'w ddarparu ar gyfer myfyrwyr sydd mewn caledi ariannol'. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

We met as recently as yesterday with the chair and chief executive of HEFCW to look again at what the impact of COVID had been this term, and what it might likely be over the course of the rest of the spring, and I'm confident that we have measures in hand. That may require additional money, but at this point, we don't have a feel for the scale of that⁴².

94. Roeddem yn awyddus i fynd ar drywydd ein diddordeb mewn dull system gyfan wrth ymdrin ag iechyd meddwl, a sicrhau bod pobl ifanc yn cael y

⁴⁰Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 118], 21 Ionawr 2021

⁴¹ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 117], 21 Ionawr 2021

⁴²Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 122], 21 Ionawr 2021

gefnogaeth gywir a bod y dyraniadau cywir yn cael eu gwneud i gefnogi hyn. Gan gyfeirio at ddarpariaeth iechyd meddwl, dywedodd y Gweinidog wrthym:

We will also be maintaining the additional funding provided in last year's budget for mental health for higher education, because those needs aren't going to go away either, and in further education as well. So, we're moving from a whole-school approach to a whole-system approach to supporting mental health. Children and young people's mental health needs don't necessarily stop when they finish school; we need to make sure that there is support there within further education and higher education⁴³.

EIN BARN: ADDYSG ÔL-16

95. Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog mai 'arian wrth gefn' yw'r £7 miliwn a ryddhawyd i ddarpariaeth addysg bellach. Nodwn ymhellach esboniad y Gweinidog fod y Llywodraeth wastad wedi dal yn ôl dros y blynyddoedd diwethaf. Nid yw hwn yn swm ansylweddol yng nghyd-destun cyllid addysg bellach. Byddem yn croesawu eglurder pellach ar bwrpas y cyllid ac am ba mor hir y mae wedi bod ar gael i Lywodraeth Cymru.

96. Rydym hefyd yn nodi'r cynnydd o £27.1 miliwn ar gyfer y cynnydd yn nemograffig darpariaeth addysg bellach a'r chweched dosbarth. Mae hwn yn gynnydd sylweddol a byddem yn croesawu eglurder pellach yn ei gylch.

97. Rydym yn nodi, heblaw am y dyraniad o £7 miliwn i ddarpariaeth addysg bellach, fod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'r holl arbedion sy'n weddill o adolygiad Diamond yn ôl yn y sector trwy gynnydd yng nghyllideb HEFCW. Nodwn hefyd fod natur ddigyfnewid cyllideb HEFCW yn golygu na allwn graffu ar y lefel sylweddol hon o gyllid yn ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Rydym yn annog y Pwyllgor sy'n ein dilyn ni i barhau i graffu yn ystod y flwyddyn ar ddyraniad cyllid HEFCW mewn sesiynau gyda HEFCW a Llywodraeth Cymru.

98. Rydym yn nodi'r dystiolaeth ynghylch y cyhoeddiad diweddar o '£40 miliwn i addysg uwch ddarparu ar gyfer myfyrwyr sydd mewn caledi ariannol', a byddem yn croesawu eglurder pellach ar yr amserlen a'r pwrpas a fwriadwyd ar gyfer y dyraniad hwn.

⁴³Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 110], 21 Ionawr 2021

99. Byddwn yn gweithio i sicrhau ein bod yn craffu ar y symudiad pwysig i ddull system gyfan wrth gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae natur y cyllidebau ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach yn golygu nad yw'n bosibl deall ar hyn o bryd a fydd cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer iechyd meddwl a lles dysgwyr. Gan hynny, er nad yw'n bosibl craffu ar hyn yn ystod y cylch cyllideb hwn, rydym yn annog y Pwyllgor sy'n ein dilyn ni i fonitro hyn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf pan ddosberthir cyllid addysg uwch ac addysg bellach i sefydliadau.

Argymhelliad 12. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o fanylion inni ar natur y gronfa wrth gefn o £7 miliwn a symudwyd i ddarpariaeth addysg bellach a chweched dosbarth, gan gynnwys gwybodaeth am faint o flynyddoedd ariannol y cadwyd yr arian ar ei gyfer, a yw wedi cael ei ddefnyddio yn y gorffennol diweddar ac at ba ddiben, ac os nad yw wedi cael ei ddefnyddio, o ystyried y pwysau costau ar y sector addysg ôl-16, beth yw'r rhesymau dros beidio ei ddefnyddio.

Argymhelliad 13. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion i ni am yr hyn sydd wedi ysgogi'r newid demograffig a ddisgwylir dros y flwyddyn ariannol nesaf sydd wedi arwain at y cynnydd mewn dyraniad gwerth £27.1 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22, ynghyd â graddfa a natur y newid demograffig, a manylion o ran pa gyfran o'r cynnydd mewn cyllid sydd ar gyfer y newid demograffig hwn, a pha gyfran sy'n cynrychioli'r cynnydd yn lefel y cyllid fesul dysgwr.

Argymhelliad 14. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o fanylion inni am y cyhoeddiad diweddar o £40 miliwn ar gyfer addysg uwch i'w ddarparu ar gyfer myfyrwyr sydd mewn caledi ariannol, gan gynnwys yr amserlen a fwriedir a'r pwrpas a fwriedir.

Argymhelliad 15. Bod y Pwyllgor sy'n ein dilyn ni yn y Chweched Senedd yn monitro'r dyraniadau i gefnogi iechyd meddwl myfyrwyr yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, pan gaiff cyllid addysg uwch ac addysg bellach ei ddosbarthu i sefydliadau.

5. Iechyd, gofal cymdeithasol a phlant

Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

100. Dyrennir mwyafrif cyllideb refeniw craidd Llywodraeth Cymru o oddeutu £16.5 biliwn yn 2021-22 ar gyfer gwariant ar wasanaethau iechyd a chymdeithasol.

101. Er bod cryn dipyn o arian ychwanegol ar draws holl bortffolios Llywodraeth Cymru yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22, mae'r cynnydd mwyaf sylweddol ym meysydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (£425 miliwn) a Thai a Llywodraeth Leol (£268 miliwn).

102. Yn 2021-22, ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyfanswm y Gwariant a Reolir yw £9.2 biliwn, sy'n cynnydd o 4.2% o gyllideb Derfynol 2020-21 (ailddatganedig). Mae hyn yn cynnwys:

- Refeniw o £8.6 biliwn (cynnydd o 5.2%)
- Cyfalaf o £382.5 miliwn (cynnydd o 3.6%)
- £148.4 miliwn o Wariant a Reolir yn Flynyddol (gostyngiad o 31.8%): gwariant yw hwn ar raglenni sy'n cael eu harwain gan alw.

103. Mae papur Llywodraeth Cymru yn darparu cryn dipyn o fanylion, gan gynnwys nodi'r dyraniadau ychwanegol a ganlyn:

- £0.7 miliwn yn ychwanegol ar gyfer cymorth Lleferydd, Iaith a Cyfathrebu yn y Blynyddoedd Cynnar.
- £17.9 miliwn yn ychwanegol ar gyfer Cymorth i Blant a Chwarae mewn perthynas â chynnydd o £15 miliwn yn y Cynnig Gofal Plant, cynnydd o £1.9 miliwn yn y gyfradd gysoni gyda'r cyfnod sylfaen a throsglwyddiad cyllideb o £1 miliwn ar gyfer atal plant rhag bod yn brin o fwyd yn ystod y gwyliau o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg.
- £0.576 miliwn yn ychwanegol ar gyfer Cefnogi Plant mewn perthynas â'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol.
- £2.4 miliwn yn ychwanegol ar gyfer Cymorth i Deuluoedd a Phlant gan gynnwys cymorth gwrthdaro rhwng rhieni; cymorth rhianta mewn perthynas â'r Ddeddf Plant (Cymru), profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chostau rhaglenni ychwanegol.

- £1.47 miliwn yn ychwanegol i gyllid CAFCASS oherwydd y galw o fewn y gwasanaeth i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol.
- £17 miliwn yn ychwanegol wedi'i gynnwys yn y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer gweithgarwch rhaglen ar gyfer 'Plant ar Gyrion Gofal' (£15 miliwn) a dyraniad newydd ar gyfer llety diogel i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth lefel uchel (£2 miliwn).
- £4 miliwn yn ychwanegol i gefnogi'r Dull Systemau Cyfan (a elwid 'Dull Ysgol Cyfan' gynt) i wella mynediad i gymorth lles iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.
- £5.4 miliwn o gyllid ychwanegol i gefnogi pobl ifanc sydd â chyflyrau iechyd meddwl wedi'u diagnosio trwy wasanaethau cleifion mewnol cymunedol neu arbenigol

Effaith COVID-19

'Ôl-groniad' wrth ddarparu gwasanaethau iechyd arferol

104. Roeddem am wybod am yr effaith sylweddol y mae COVID-19 wedi ei chael ar ddarparu gofal iechyd arferol, a sut y bydd y dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 yn adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc.

105. Yn ôl tystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, mae ôl-groniad sylweddol sydd wedi cronni ers mis Mawrth 2020 wrth ddarparu gofal iechyd cyffredinol. Mae dystiolaeth y Gweinidog yn tynnu sylw at y pwysau ar wasanaethau canser, gan amcangyfrif bod o leiaf 13,500 o bobl yr amheuir bod ganddynt ganser y gellir eu cyfeirio rywbryd yn y dyfodol agos. Gall yr ôl-groniad hwn, ynghyd ag oedi ar gyfer profion diagnostig 'gymryd 132 wythnos i weld ac adolygu'r nifer ychwanegol o gleifion, a chredwn fod hyn yn annerbyniol'. Nid yw'r dystiolaeth hon yn cyfeirio'n benodol at yr effaith ar blant a phobl ifanc.

106. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pa asesiad y mae wedi'i wneud o'r effaith ar blant yn sgil yr oedi mewn gofal iechyd arferol. Gofynnem hefyd sut y bydd y cyllid y mae'n bwriadu ei gyhoeddi ar gyfer 2021-22 yn dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn sy'n benodol i ofal iechyd arferol plant a phobl ifanc.

107. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

[...] some aspects of children and young people's routine healthcare have obviously carried on because they've been designated as essential services. There are some things that you can't stop. So, maternity

services have obviously carried on. Babies haven't stopped being born during the period of the pandemic, so that's essential work, and so the work of health visitors as well that is essential has carried on.

[...] In other aspects, some of the more surveillance work, that's part of our challenge.

[...] So, you have those specific examples, but in the broader picture, there are a whole range of essential children and young people services that we have safeguarded, but that big backlog is definitely going to affect children and young people, and there's no getting away from that I'm afraid⁴⁴.

108. Aeth swyddog y Gweinidog ymlaen i ddweud:

[...] the important bits of health services that we offer children, as the Minister says, haven't stopped. So, the antenatal care, the maternity care—fundamentally important for their ongoing well-being, but also, child health screening, because screening and prevention is the biggest chunk of routine health services, which includes immunisation.

[...] They have adapted to the fact that we all have to do things virtually, face-to-face where necessary, virtually where that is better for everybody, and so those things have continued. We've even done a lot of work with our colleagues in the health service to improve things like routine screening of the neonatal and six-week physical examination [...]⁴⁵.

109. Fe wnaeth swyddog y Gweinidog hefyd ddarparu manylion am sut maen nhw'n ceisio mynd i'r afael â heriau o ran ymyriadau llawfeddygol, gan gynnwys taflod hollt, a gwasanaeth cludo babanod newyddanedig 24/7. Cyfeiriodd y swyddog hefyd at fonitro proses allbynnau Plant Iach Cymru⁴⁶.

110. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys cynnydd o 8.2% ar gyfer hyfforddiant ac addysg i weithlu'r GIG, sy'n gynydd £2.1 miliwn i £27.9 miliwn yn 2021-22. Roeddem yn awyddus i gael gwybod faint o hyn fydd yn cael ei wario ar y

⁴⁴Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 188-189], 21 Ionawr 2021

⁴⁵Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 192], 21 Ionawr 2021

⁴⁶Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 193-195], 21 Ionawr 2021

gweithlu pediatreg. Roeddem hefyd yn awyddus i ddeall a fydd unrhyw ran o'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â phryderon yr ydym wedi'u clywed bod rhannau o'r gweithlu pediatreg yn cael eu symud i wasanaethau oedolion i ddelio â phandemig COVID-19.

111. Dywedodd y Gweinidog wrthym am gynnydd mewn hyfforddiant bydwreigiaeth a lleoedd hyfforddi nyrsio plant⁴⁷. Aeth ymlaen i sôn am gwestiynau ynghylch a oedd ymwelwyr ieuchyd wedi cael eu hailddyrannu yn ystod y pandemig. Dywedodd:

I wouldn't want anyone to have the impression there's been a permanent transfer of people out of paediatric services, because that isn't the case⁴⁸.

Diwallu anghenion ieuchyd plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig

112. Dywed Erthygl 27 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fod gan bob plentyn yr hawl i safon byw sy'n caniatáu iddynt ddatblygu'n gorfforol, yn feddyliol, yn ysbrydol ac yn gymdeithasol. Gall byw mewn ardal ddifreintiedig olygu bod anghenion ieuchyd corfforol plant yn llai tebygol o gael eu diwallu.

113. Eleni buom yn edrych ar yr ystadegau diweddaraf ar gyfer gordewdra ymhlith plant. Maent yn dangos bod plant oedran derbyn yn sylweddol fwy tebygol o fod yn ordew na chyfartaledd Cymru os ydynt yn byw mewn ardal ddifreintiedig. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, fod plant oed derbyn ym Merthyr Tudful bron ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn ordew na phlant ym Mro Morgannwg.

114. Fe wnaethon ni holi'r Gweinidog sut y mae'n ceisio sicrhau y bydd dyraniadau Llywodraeth Cymru yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 ar gyfer ieuchyd plant yn mynd i'r afael â materion y mae grwpiau penodol o blant yn eu hwynebu, megis y plant hynny sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

115. Cynigiodd y Gweinidog ddarparu nodyn ar y fformiwla ariannu mewn perthynas â'r cynnydd mewn dyraniadau ieuchyd:

⁴⁷Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 197], 21 Ionawr 2021

⁴⁸Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 199], 21 Ionawr 2021

What I can indicate is that the formula does take account of demographic indicators; so, population health measures; it takes account of the different level of costs for different age groups; it takes account of the costs for where you have a higher level of younger people, so the birth rate is different; it also takes specific account of deprivation as well⁴⁹.

EIN BARN: IECHYD CORFFOROL PLANT

116. Dywed Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fod gan blant a phobl ifanc yr hawl i'r iechyd gorau posibl. Fel Pwyllgor, rydym yn pryderu am effaith pandemig COVID-19 ar y ddarpariaeth gofal iechyd arferol i blant. Mae blwyddyn ym mywyd plentyn yn amser sylweddol o ran ei ddatblygiad.

117. Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi diogelu ystod eang o wasanaethau fel gwasanaethau cynenedigol a gwasanaethau mamolaeth, ond rydym yn pryderu bod y Gweinidog yn cydnabod bod ôl-groniad mawr yn sicr o effeithio ar blant a phobl ifanc⁵⁰.

118. Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan y Gweinidog a'i swyddog am yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud i fynd i'r afael â'r heriau a wynebwr mewn perthynas â materion iechyd penodol, megis ymyriadau llawfeddygol ar gyfer taflod hollt. Mae gennym ddiddordeb mawr yn y graddau y mae'r drefn arferol o gadw gwylidwriaeth ar iechyd wyneb yn wyneb wedi'i gynnal, gan gynnwys y cysylltiadau sgrinio cyffredinol a ragnodir yn rhaglen Plant Iach Cymru.

119. Rydym yn cydnabod y pwysau sylweddol ar weithlu'r GIG i ddarparu gofal ar gyfnod brig pandemig COVID-19. Rydym yn croesawu'r sicrwydd a gawsom gan y Gweinidog na throsglwyddwyd y gweithlu yn barhaol o'r gwasanaethau pediatreg.

120. Serch hynny, byddem yn croesawu sicrwydd pellach bod anghenion grwpiau penodol o blant yn cael sylw o fewn dyraniad Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod nad tasg syml yw hon. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn esboniad y Gweinidog y bydd fformiwla Townsend ar ei ben ei hun yn datrys yr her hon o ystyried ei bod yn ymwneud â'r elfen o dwf yn hytrach na'r gyllideb gyffredinol.

⁴⁹Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 178-179], 21 Ionawr 2021

⁵⁰Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 189], 21 Ionawr 2021

Argymhelliad 16. Dylai'r Pwyllgor sy'n ein dilyn ni fonitro'r ystadegau iechyd sydd wedi'u cyhoeddi a all ddangos y graddau y mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo wrth ddiwallu anghenion iechyd plant mewn ardaloedd difreintiedig.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod anghenion iechyd arferol plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag anghenion oedolion. Rhaid i'r Llywodraeth ymrwymo i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cyfran deg o gyllid pan fydd y Gweinidog yn cyhoeddi ei gynlluniau gwariant i fynd i'r afael â'r ôl-groniadau mewn gofal iechyd arferol ym mis Ebrill 2022. Dylid cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ochr yn ochr â'r cynllun hwn.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y graddau y mae rhaglen Plant Iach Cymru wedi cyflawni ei chysylltiadau sgrinio cyffredinol wyneb yn wyneb ledled Cymru rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2020. Yn yr achosion hynny lle nad yw cysylltiadau sgrinio wedi cael eu cyflawni, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau i wneud hynny ochr yn ochr ag unrhyw ddyraniadau ariannol sydd eu hangen.

Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

121. Mae ein gwaith craffu ar y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi canolbwyntio'n gyson ar y dyraniadau i gefnogi iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, ac iechyd meddwl amenedigol. Gwnaethom graffu'n fanwl iawn ar y ddau fater yma wrth ystyried Cyllideb Ddrafft 2020-21.

122. Mae ein gwaith craffu ariannol yn y maes hwn yn adeiladu ar adroddiadau yr ydym wedi'u cyhoeddi ar y materion hyn yn 2017 a 2018.⁵¹ Yn ddiweddar gwnaethom gyhoeddi adroddiad dilynol Cadernid Meddwl ym mis Hydref 2020⁵².

123. Yn yr adroddiad dilynol hwn, gwnaethom alw am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch effaith y dyraniad o £7 miliwn yn 2020-21. Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn rhoi'r manylion hynny⁵³.

124. Wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft 2021-22, gwnaethom ymdrechu i ystyried effaith y pandemig. Roeddem am wybod sut y byddai'r dyraniad ychwanegol

⁵¹ Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Adroddiad Iechyd Meddwl Amenedigol, Hydref 2017 ac Adroddiad Cadernid Meddwl, Ebrill 2018.

⁵² Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Adroddiad dilynol Cadernid Meddwl, Hydref 2020.

⁵³ Llywodraeth Cymru, ymateb i'r gwaith dilynol Cadernid Meddwl, Tachwedd 2020.

pob-oedran o £20 miliwn yn cael ei dargedu, ac roeddem am gael sicrwydd y byddai hefyd yn darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc.

125. Dywedodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg:

[...] first of all, we've got to put this in the context of just understanding that we recognise that there is, potentially, a mental health crisis that will occur as result of this pandemic.

There was already an issue in relation to mental health, but I think there is a particular issue that we need to address in relation to children and young people, and that's why that has been recognised in the budget this year⁵⁴.

126. Aeth y Gweinidog yn ei blaen i ddweud y byddai amrywiaeth o wasanaethau'n cael eu hariannu drwy'r dyraniad hwn gan gynnwys anhwylderau bwyta, therapïau amenedigol a seicolegol a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at gyllid ar gyfer 'haen sero' a 'gofal argyfwng'⁵⁵.

127. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am y dyraniadau o £5.4 miliwn ar gyfer darpariaeth Haen 4 a Thimau Cymunedol Dwys, a faint o'r cyllid hwnnw oedd ar gyfer Haen 4 yn benodol.

128. Atebodd y Gweinidog:

[...] the decision as to where that funding is going to go is going to be informed by the national collaborative commissioning unit's review of the two tier 4 units—so, the Tŷ Llidiard and the north Wales adolescent service. So we're looking—and we've been monitoring bed capacity within CAMHS—and all of that's going to be fed in for us to understand where the gaps are so we can target that funding. So, the actual lockdown of where the allocation's going to go hasn't been determined yet, but we're waiting for that review in order to inform exactly where we should be prioritising that funding.⁵⁶

⁵⁴Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 203], 21 Ionawr 2021

⁵⁵Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 205-206], 21 Ionawr 2021

⁵⁶Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 215-216], 21 Ionawr 2021

129. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at £2 filiwn sydd wedi'i neilltuo o fewn y gronfa gofal cyfryngol ar gyfer achosion gofal cymhleth, a bod Llywodraeth Cymru yn annog byrddau iechyd a byrddau partneriaeth rhanbarthol i gyflwyno cynigion.⁵⁷

130. Gofynnwyd i'r Gweinidog am wybodaeth yn ei thystiolaeth ysgrifenedig a oedd yn nodi cyfanswm dyraniad o £9 miliwn i ariannu'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl (sy'n cynnwys £2 filiwn o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a dyraniad o £7 miliwn o gyllideb y Gweinidog, gyda £4 miliwn o hwnnw'n arian newydd). Gan gyfeirio at y £7 miliwn, roedd y papur yn datgan:

Bydd hyn yn cynyddu'r dyraniad yn 2021-22 i £7m o'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Bydd y buddsoddiadau yn helpu i gynyddu darpariaeth gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ac yn ymestyn y cynlluniau mewngymorth presennol ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ymhellach i 2021-22. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu i atal problemau iechyd meddwl a llesiant mwy difrifol ymhlith plant o oedran ysgol rhag gwaethygu ac yn sicrhau gwelliannau cynaliadwy i amseroldeb ymyriadau. Hefyd, mae £2m yn y MEG Addysg sy'n cefnogi'r rhaglen hon, sy'n golygu bod cyfanswm o £9m wedi'i neilltuo ar ei chyfer.

131. Mae'n bwysig inni fod yn glir sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau bod gwerth am arian, a bod y canlyniadau i blant a phobl ifanc yn cael eu monitro. Gwnaethom ofyn hefyd sut y mae'r Gweinidog yn gwybod a yw'r dyraniad hwn yn ddigonol

132. Dywedodd y Gweinidog wrthym am waith ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd i werthuso'r dull ysgol gyfan. Dywedodd wrthym hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad ar wahân o brosiect Mewngymorth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

Iechyd meddwl amenedigol

133. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar iechyd meddwl amenedigol ym mis Hydref 2017.⁵⁸ Rydym wedi bod yn monitro'r cynnydd sydd wedi'i wneud ers hynny, ac wedi gwneud gwaith dilynol pellach ym mis Chwefror 2020.

⁵⁷Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 219], 21 Ionawr 2021

⁵⁸ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Adroddiad Iechyd Meddwl Amenedigol, Hydref 2017.

134. Yng ngwaith craffu'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar Gyllideb Ddrafft 2021-22, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a oes cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer iechyd meddwl amenedigol.

135. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

Well, we haven't ring-fenced it yet, but we haven't made any firm decisions on how we're going to spend the £7 million that has been earmarked for the service improvement fund. So, we'll look at that, Lynne, just to see if there is any scope to do that, because, obviously, that is one of the priority services that we've asked people to look at within mental health.⁵⁹

136. Yn y sesiwn graffu â'r Gweinidog, gofynnwyd pa ganlyniadau yr oedd yn disgwyl eu gweld yn deillio o'r cyllid sydd ar gael i Fyrddau Iechyd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol, a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro a yw hyn yn ddigonol.

137. Dywedodd y Gweinidog wrthym y gofynnwyd i fyrddau iechyd fonitro'r sefyllfa.⁶⁰ Eglurodd ymhellach y gofynnwyd i fyrddau iechyd sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau a bennwyd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion, a bod arian ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r perwyl hwn⁶¹.

138. Edrychwyd ar y cynnydd a wnaed yn ein hadroddiad 'Iechyd Meddwl Amenedigol yng Nghymru' ar 26 Tachwedd 2020 fel rhan o'n gwaith craffu ar COVID-19. Clywsom fod gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol yn parhau i ddarparu gwasanaethau yn ystod COVID-19, a bod yr Uned chwe gwely dros dro ar gyfer Mamau a Babanod yn Nhonna ar y trywydd iawn i'w chwblhau erbyn mis Mawrth 2021.

139. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wrthi' trafod â GIG Gogledd Orllewin Lloegr i gael mynediad at eu gwasanaethau cleifion mewnol iechyd meddwl amenedigol hwy.

140. Gofynnwyd i'r Gweinidog am y dyraniadau ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar gyfer iechyd meddwl amenedigol. Soniwyd am y Bwrdd Iechyd

⁵⁹ Tystiolaeth lafar, Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cofnod y Trafodion [paragraff 98], 20 Ionawr 2021.

⁶⁰ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 228], 21 Ionawr 2021

⁶¹ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 228], 21 Ionawr 2021

yna'n ceisio datblygu darpariaeth cleifion mewnol yn y gogledd a fyddai hefyd ar gael i fenywod yn Lloegr.

141. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

Well, these are very specialist services, so you do have to ensure that there is sufficient population to be covered. We are in discussions with north-west England with regard to establishing, perhaps, a few beds with them in the unit that they are thinking about developing, but, of course, one of the things that we would be very eager to do is to ensure that that provision can be provided through the medium of Welsh as well. So, that discussion is ongoing.⁶²

142. Gan gyfeirio at y sefyllfa yn ne Cymru, dywedodd y Gweinidog:

[...] we have allocated £1.6 million of capital to develop the centre in Tonna in Neath, so that is going forward, and we hope that that will open in March, and I know that the recruitment for that has already started⁶³.

EIN BARN: IECHYD EMOSIYNOL, IECHYD MEDDWL AC IECHYD MEDDWL AMENEDIGOL

143. Gwyddom fod pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl y boblogaeth ac y bydd yn parhau i wneud hynny. Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen y cymorth cywir ar ein plant a'n pobl ifanc, a hynny mewn ffordd y gallant ei defnyddio'n hawdd.

144. Rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r cyllid sylweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu ei fod ar gael i gefnogi gwasanaethau ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc.

145. Serch hynny, mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn gliriach ynglŷn â'r hyn sydd yn cael ei gyflawni ac a fydd yn cael ei gyflawni gyda'r buddsoddiadau hyn. Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog am y gwaith gyda Phrifysgol Caerdydd yn

⁶²Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 234], 21 Ionawr 2021

⁶³Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 236], 21 Ionawr 2021

hyn o beth, a'r gwerthusiad o brosiectau Mewngymorth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

146. Rydym yn croesawu'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer parhau â'r dull ysgol gyfan wrth ymdrin ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, ac rydym yn parhau i gymeradwyo Llywodraeth Cymru am ei ffordd traws-weinidogol o weithredu yn y maes hwn. Credwn fod y dull ysgol gyfan yn hanfodol i gyflawni'r dull system gyfan y gwnaethom alw amdano yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl yn 2018 a'r adroddiad dilynol yn 2020.

147. Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ar ein hargymhelliad y dylid newid y grŵp gorchwyl a gorffen ar ddull ysgol gyfan i grŵp gorchwyl a gorffen ar system gyfan. Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r effaith ar waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol yn sgil cau adeiladau ysgolion i'r rhan fwyaf o ddisgyblion, a dylai addasu ei ffyrdd o weithio yn gyflym os oes angen.

148. Mae cymorth ar gyfer iechyd meddwl amenedigol hefyd yn hanfodol yn ystod y cyfnod anodd hwn gyda llai o gymorth uniongyrchol yn debygol o fod ar gael gan wasanaethau iechyd, teulu a ffrindiau. Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn aros am ddadansoddiad sy'n dangos a fu cynnydd mewn anghenion.⁶⁴

149. Rydym am fod yn sicr bod digon o ddyraniadau'n cael eu gwneud i ddarparu cymorth iechyd meddwl amenedigol yng nghyd-destun y pandemig. Roeddem yn bryderus o glywed yn nhystiolaeth y Gweinidog y gofynnwyd i fyrdau iechyd fonitro'r sefyllfa, a hoffem sicrwydd bod Llywodraeth Cymru ei hun yn goruchwyllo hyn.

150. Ers 2017 rydym wedi galw'n gyson am gwblhau gwaith ar ddarparu uned mamau a babanod arbenigol. Gan hynny, rydym yn falch iawn o glywed gan y Gweinidog fod dyraniad cyfalaf o £1.6 miliwn i ddatblygu'r ganolfan yn Nhonna yng Nghastell-nedd gyda'r gobaith y bydd yn agor ym mis Mawrth 2021.⁶⁵

⁶⁴Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 230], 21 Ionawr 2021

⁶⁵Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 236], 21 Ionawr 2021

Argymhelliad 19. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth fanwl i ni am y broses werthuso ar gyfer y dull ysgol gyfan a phrosiect Mewngymorth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, gan gynnwys amserlenni.

Argymhelliad 20. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth cyn gynted â phosibl am y camau nesaf ar gyfer darpariaeth Haen 4, gan gynnwys llety i blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys manylion yr holl gyllid sydd ei angen.

Argymhelliad 21. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o fanylion i ni am sut y mae'n sicrhau y bodlonir ei disgwyliad bod gwasanaethau amenedigol Byrddau Iechyd yn cyrraedd y safonau a bennwyd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion: a sut y mae'n bodloni ei hun fod cyllid digonol yn cael ei ddyrannu gan y Byrddau Iechyd yn hyn o beth.

Argymhelliad 22. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi yr hyn y mae'n ei fwriadu mewn perthynas â darpariaeth iechyd meddwl amenedigol arbenigol yn y gogledd (gan gynnwys trefniadau ariannu) fel mater o frys. Dylai hyn gynnwys manylion am y ddarpariaeth gymunedol yn ogystal ag uned mamau a babanod. Dylai hefyd gynnwys manylion am sut y mae'n bwriadu cynnig darpariaeth iechyd meddwl amenedigol yn y Gymraeg.

Lles, gofal cymdeithasol a chymorth i blant

Diogelu

151. Amcangyfrifir bod y pandemig wedi costio tua £325 miliwn i awdurdodau lleol yn chwe mis cyntaf 2020-21. O ystyried y sefyllfa ariannol y maent wedi'i hwynebu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a oedd eisoes yn heriol, gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a yw'n sicr bod digon o adnoddau'n cael eu rhoi i wasanaethau cymdeithasol rheng flaen i blant at ddibenion diogelu plant sydd angen gwasanaeth o'r fath.

152. Roeddem am gael sicrwydd bod y gwasanaethau hyn yn rhai cadarn. Gwnaethom nodi bod Llywodraeth Cymru, ym mis Hydref 2020, wedi dyrannu £1.6 miliwn i awdurdodau lleol i helpu i fynd i'r afael ag achosion yn ddiogell cyn cyrraedd y pwynt o droi at y gofrestr amddiffyn plant.

153. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos iawn â'r awdurdodau lleol er mwyn cadw llygad ar yr hyn sy'n digwydd⁶⁶. Ymhelaethodd y Dirprwy Weinidog:

During the pandemic, of course, the services have remained open and they have had to manage the risk that has been there, of course, and they are well used to managing that risk. We've put in COVID-19 operational guidance for children's social care to give particular guidance to the local authorities [...]

There's a weekly data collection process with the local authorities and that data shows how the local authorities are dealing and coping with the services, so the children's services—we can see every week whether they are able to fulfil the duties that they have. that they are being kept safe.⁶⁷

154. Aeth y Dirprwy Weinidog ymlaen i ddweud:

[...] in the first lockdown, there was a drop in safeguarding referrals, and I think that was widely noticed. But I'm assured now by the chairs of the safeguarding boards that they have recovered in terms of they're more average now than they were before, but I know there was some concern about that at the beginning.⁶⁸

Plant sy'n derbyn gofal

155. Mae cymorth i blant sy'n derbyn gofal yn thema sydd wedi codi mewn nifer o'n hymnoliadau yn ystod y Pumed Cynulliad, gan gynnwys ein hadroddiadau *Cadernid Meddwl a Cyrraedd y Nod?*. Fe benderfynon ni fwrw golwg fanylach ar y maes hwn fel rhan o'n gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2020-21.

156. Yr hyn y gwnaethom ganolbwyntio arno yn 2020 oedd cynnig maniffesto Prif Weinidog Cymru ar gyfer Arweinyddiaeth Llafur Cymru yn 2018 y dylid gosod "targedau rhwymol newydd" gan Lywodraeth Cymru i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.⁶⁹ Yn ystod 2019, gofynnwyd am sicrwydd gan

⁶⁶Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 243], 21 Ionawr 2021

⁶⁷Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 239-241], 21 Ionawr 2021

⁶⁸Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 242], 21 Ionawr 2021

⁶⁹ [Maniffesto Mark Drakeford ar gyfer Arweinydd Llafur Cymru](#), 2018.

Lywodraeth Cymru na fyddai targedau o'r fath yn arwain at ostyngiadau i lefelau anniogel yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.⁷⁰

157. Er bod y rhan fwyaf o'r gwariant cyhoeddus ar blant sy'n derbyn gofal yn dod o'r Grant Cynnal Refeniw drwy'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol, mae'r cyfrifoldeb am ganlyniadau i'r plant hynny yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

158. Mae bron i 7,000 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru, ac mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dweud bod y duedd hon yn debygol o gynyddu ymhellach. Wrth sôn am Gyllideb Ddrafft 2021-22, dywedodd fod y gost uchel yn sgil dod o hyd i leoliadau yn ystod y pandemig wedi arwain at bwysau ariannol ychwanegol. Roeddem am ddeall pa drafodaethau y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol a chyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch dyraniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal cyn y Gyllideb Ddrafft hon.

159. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

On the whole, during the pandemic, placements have been fairly stable, and I really want to pay tribute to the local authorities, because I think they have managed any moves really well, and, when there is additional financial pressure because of breakdown and the local authorities have had to pay for more expensive placements, they have been able to use the local government hardship fund, which, of course, we have put in place in addition to the regular funding for the local authorities in response to the pandemic. And, to date, £8 million for children's social services has been used and the finance Minister is considering what more money may be needed by health and social services out of the reserve COVID money that she has got⁷¹.

160. Rydym yn nodi bod y Gyllideb Ddrafft yn cynnwys £15 miliwn ar gyfer gwasanaethau i atal plant rhag gorfod mynd i ofal. Gwnaethom ofyn i'r Dirprwy Weinidog a yw'r dyraniadau ar gyfer 'gwasanaethau ar ffiniau gofal' a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol wedi dechrau cael effaith ar niferoedd.

⁷⁰ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Gohebiaeth yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal, 2019.

⁷¹ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 245], 21 Ionawr 2021

161. Gofynnwyd hefyd am eglurhad ynghylch a fu unrhyw newid yn safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gofyniad i Awdurdodau Lleol leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yng nghyd-destun y pandemig.

162. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

[...] our commitment is still that we want as many children as possible to be at home with their families, so we do want to continue reducing the number of children in care safely. I think that the £15 million that we're putting in to prevent children going into care is used for some of those services I've already mentioned. I think it will help to do that.

163. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym hefyd fod 10 o'r 22 awdurdod lleol wedi lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal⁷² ac aeth ymlaen i ddweud y bu gostyngiad o ddau y cant⁷³.

Tlodi Plant, y Cynnig Gofal Plant a'r Grant Plant a Chymunedau

164. Y mesur tlodi plant a ddefnyddir fynyachaf yw tlodi incwm cymharol gan ddefnyddio'r diffiniad o blant sy'n byw ar aelwydydd ag incwm sy'n llai na 60% o'r incwm canolrifol ar ôl costau tai. Cyhoeddwyd ystadegau diweddaraf HBAI ym mis Mawrth 2020 ac maent yn dangos mai 28% o blant Cymru yw'r ffigur yn hyn o beth.

165. Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog am ei barn ynghylch tystiolaeth ysgrifenedig Sefydliad Bevan. Fel rhan o'i chynigion ynghylch sut y gallai Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 'sicrhau gostyngiad sylweddol mewn lefelau tlodi', dywedodd Sefydliad Bevan wrth y Pwyllgor Cyllid y dylid ailflaenoriaethu cyllid presennol y Cynnig Gofal Plant fel ei fod yn cael ei ddarparu'n gyffredinol i bob plentyn dros 9 mis oed, waeth beth fo sail cyflogaeth eu rhieni.

166. Dywedodd y Dirprwy Weinidog:

I would say it would be great if we could do that, but it does cost an incredible amount of money, the childcare offer, and it is constantly rising. It's demand led, so if it goes beyond what we've allocated in the budget, we have to go to the reserves to cover it. [...] We wouldn't have

⁷²Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 251], 21 Ionawr 2021

⁷³Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 252], 21 Ionawr 2021

the resources to do that, although in an ideal situation it would be very good to do⁷⁴.

167. Rydym yn nodi bod £20 miliwn ychwanegol eisoes wedi'i ddyrannu yn y flwyddyn ariannol gyfredol hon ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, a bod y Gyllideb Ddrafft yn cynnwys cynnydd o £15 miliwn ar ei gyfer, gan ddod â chyfanswm y dyraniad i £76.9 miliwn.

168. Yn dilyn y pwynt a wnaed gan Sefydliad Bevan, gofynnem sut y mae'r dyraniad sylweddol hwn o £76.9 miliwn yn cyd-fynd â nod Llywodraeth Cymru o leihau tlodi plant o ystyried ei fod wedi'i dargedu at y plant hynny y mae eu rhieni eisoes mewn cyflogaeth.

169. Atebodd y Dirprwy Weinidog:

[...] I think the important point to make here, really, is that poverty is not just restricted to homes where no-one is working, because there is a huge number of working parents who are struggling to meet the costs of raising a family, and it's really important that we help them as well⁷⁵.

170. Gofynnem i'r Dirprwy Weinidog am y ffaith y cyfunwyd saith grant refeniw, gan gynnwys Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, o fewn y Grant Plant a Chymunedau sydd bellach yn rhan o'r Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol. Rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith craffu ar y canlyniadau sydd wedi'u cyflawni gan y rhaglen Dechrau'n Deg, gan gynnwys dyraniadau'r rhaglen ar gyfer darparu allgymorth.

171. Gwnaethom ofyn am gyfanswm gwerth y Grant Plant a Chymunedau hwn yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 i'r graddau y mae'n ymwneud â phlant, a sut y mae'r Dirprwy Weinidog yn mesur y canlyniadau i blant sy'n deillio o'r cyllid hwn o ystyried ei fod o fewn portffolio'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai.

172. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

My officials in the children and families division work very closely with officials who manage this grant to ensure that progress is reported and

⁷⁴Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 269], 21 Ionawr 2021

⁷⁵Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 265], 21 Ionawr 2021

monitored regularly on Flying Start and Families First, along with the other five programmes included in the grant.

[...] The Welsh Government has developed a cross-Government outcomes framework, which will bring together data from each of the seven programmes, including Flying Start and Families First, and that was developed in partnership with local authorities and policy leads across the Welsh Government⁷⁶.

173. Dywedodd swyddog y Dirprwy Weinidog wrthym:

[...] the programme is one that has evaluation built into it, so the intention is to be reporting to an incoming administration about what benefits we've derived from the programme, and to be able to demonstrate, I suppose, the kind of value that it's added.

And in terms of the children and communities grant, the allocation for 2021-22 is £138.942 million⁷⁷.

EIN BARN: GOFAL CYMDEITHASOL I BLANT A PHOBL IFANC

174. Rydym yn nodi'r pryderon yn Lloegr y bu gostyngiad sylweddol o 10% mewn atgyfeiriadau i awdurdodau lleol rhwng diwedd Ebrill a Thachwedd 2020, yn ôl Swyddfa'r Comisiynydd Plant yn Lloegr. Rhaid monitro tueddiadau o'r fath yn ofalus yng Nghymru.

175. Rydym yn cydnabod nad yw rhai o'r prif ddylanwadau wrth fynd i'r afael â thlodi plant wedi'u datganoli, ac o'r herwydd mae'n bwysicach fyth ein bod yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael inni yn y ffordd orau bosibl.

176. Mae'r dyraniad o £76.9 miliwn ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn sylweddol. Rydym yn croesawu tystiolaeth y Gweinidog mai tua £21,000 y flwyddyn yw cyflog canolrifol y rhai sy'n cael cymorth, sy'n is na'r cyflog blyneddol cyfartalog

⁷⁶Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 294-295], 21 Ionawr 2021

⁷⁷Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 298-299], 21 Ionawr 2021

cenedlaethol, a'i thystiolaeth bod y sawl sy'n derbyn y cymorth yn cynnwys teuluoedd wynebu tlodi er eu bod mewn cyflogaeth⁷⁸.

177. Rydym yn nodi tystiolaeth y Dirprwy Weinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn llunio cynigion yn fuan iawn i bennu sut y gellir mynd ati i ymestyn y cynnig gofal plant i bobl sydd mewn addysg a hyfforddiant⁷⁹.

178. O ran y Grant Plant a Chymunedau, gwnaethom fynegi pryderon ddwy flynedd n ôl yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2019-20⁸⁰ ynghylch cyfuno grantiau i ariannu gwasanaethau i blant, a'r ffaith eu bod wedi'u trosglwyddo i'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Thai. Bryd hynny, gofynnwyd pam yr oedd y rhaniad hwn rhwng cyfrifoldeb am bolisi a chyllid yn bodoli, ac i ba raddau y mae'n rhwystr wrth oruchwyllo a rheoli'r ddarpariaeth yn effeithiol.

179. Ar yr adeg honno, gwnaethom hefyd annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y dyraniadau ar gyfer y grantiau cydran o fewn y Grant Plant a Chymunedau ehangach yn parhau i fod yn amlwg, a monitro'n agos a yw'r cymorth a ddarperir drwy'r Grant yn cael ei ddefnyddio i wneud iawn am ddiffygion mewn mannau eraill yng nghyllid llywodraeth leol.

180. Gwnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru:

- yn sicrhau nad oes unrhyw ostyngiad yn nhryloywder yr wybodaeth a ddarperir mewn perthynas â'r grantiau cydran sy'n ffurfio'r Grant Plant a Chymunedau; ac
- yn monitro'n agos a oedd y cymorth a ddarperir drwy'r Grant yn cael ei ddefnyddio i wneud iawn am ddiffygion mewn mannau eraill yng nghyllid llywodraeth leol.

181. Mae'n siomedig gweld nad yw'r wybodaeth a roddwyd i ni ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2021-22 wedi cynnwys y tryloywder y gwnaethom ei argymhell. Mae'n dal i fod yn aneglur i ni sut mae canlyniadau i blant yn cael eu monitro rhwng portffolios.

⁷⁸Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 265], 21 Ionawr 2021

⁷⁹Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 266], 21 Ionawr 2021

⁸⁰ Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft, 27 Tachwedd 2018

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion i ni am yr £8 miliwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i blant y cyfeiriwyd ato yn nhystiolaeth y Dirprwy Weinidog.

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro atgyfeiriadau diogelu plant yn wythnosol ac ymateb yn gyflym lle bo unrhyw bryderon y gallai achosion fod yn cael eu tangofnodi.

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gyhoeddi cynigion wedi'u costio ar sut y mae'n bwriadu ymestyn y Cynnig Gofal Plant i rieni mewn addysg a hyfforddiant.

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu nodyn manwl i ni ar y Grant Plant a Chymunedau fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc. Dylai gynnwys:

- beth sydd wedi'i fonitro o ran y canlyniadau i blant ers creu'r grant, ac ar ba adegau;
- naratif am sut mae'r grant hwn wedi sicrhau gwerth am arian hyd yma;
- esboniad o sut y mae Llywodraeth Cymru wedi monitro manteision darparu grant heb ei neilltuo o ran yr hyblygrwydd y bwriadwyd iddo ei roi i awdurdodau lleol;
- manylion unrhyw newidiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol i unrhyw awdurdod lleol unigol eu gwneud o ganlyniad i waith parhaus y Llywodraeth o fonitro dyraniad y grant;
- manylion y 'fframwaith canlyniadau traws-lywodraethol' newydd sydd wedi'i ddatblygu.